

Achosion Llys Strategol yn erbyn Cyfranogiad y Cyhoedd (SLAPPs) - Galwad am Dystiolaeth

Crynodeb Gweithredol (Cymraeg) o Ymateb y Llywodraeth

Cefndir

Ym mis Mawrth lansiodd y Dirprwy Brif Weinidog Alwad am Dystiolaeth mewn ymateb i'r heriau a gyflwynir gan fath o ymgyfreitha a elwir ar y cyd yn SLAPPs – Achosion Llys Strategol yn erbyn Cyfranogiad y Cyhoedd.

Gellir disgrifio SLAPPs fel cam-drin y broses gyfreithiol, lle mai'r prif amcan yw aflonyddu, bygwth a blino gwrthwynebydd yn ariannol ac yn seicolegol drwy ddulliau amhriodol.

Yn ogystal â cheisio tystiolaeth o natur a graddfa'r SLAPPs, mae'r Cais am Dystiolaeth yn nodi opsiynau ar gyfer diwygiadau posibl ac yn ceisio barn ar y mesurau.

Crynodeb o'r ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 120 o ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth. O'r rhain, roedd nifer fawr gan gwmnïau cyfreithwyr, ymarferwyr cyfreithiol yn arbenigo mewn cyfraith cyfryngau a difenwi, sefydliadau'r cyfryngau, cyhoeddwyr, grwpiau buddiant, ac academyddion. Derbyniwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau, o safbwynt hawlwyr a diffynyddion.

Adlewyrchwyd yr amrywiaeth barn mewn agweddau at p'un a oedd SLAPPs yn broblem ddifrifol ai peidio, neu a oeddent yn bodoli o gwbl. Darparwyd amrywiaeth o ddeunydd ategol gan y rhai a oedd wedi derbyn dogfennau cyfreithiol sy'n nodwedd SLAPP.

Mae manylion llawn yr ymatebion i'r cwestiynau unigol i'w gweld yn nogfen Ymateb y Llywodraeth - [Achosion Llys Strategol yn erbyn Cyfranogiad y Cyhoedd \(SLAPPs\) - Y Weinyddiaeth Gyfiawnder - Citizen Space](#).

Yn gryno, roedd yr ymatebion o dan y gwahanol benawdau Galwad am Dystiolaeth fel y nodir isod:

- **Tystiolaeth ac Effaith SLAPPs** – darparodd nifer o sefydliadau'r cyfryngau, grwpiau ymgyrchu a rhai cwmnïau cyfreithiol ddeunydd a oedd, yn eu barn hwy, yn ymddygiad SLAPP – er enghraifft, llythyrau cyfreithiol ymosodol sy'n bygwth y bydd perygl o gostau. Teimlai ymatebwyr eraill fod deunydd o'r fath yn rhan annatod o arddull wrthwynebol o ymgyfreitha, a bod mater SLAPPs wedi'i orliwio'n fawr.
- **Opsiynau deddfwriaethol** – roedd consensws eang ymhlith ymatebwyr y byddai diffiniad neu ddull o gategoreiddio SLAPPs yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau'n amrywio'n sylweddol o ran pa mor eang y dylai diffiniad statudol o'r fath fod, ac a ddylid ei wneud yn rhannol o feini prawf a oedd yn adlewyrchu nodweddion SLAPP. Tynnwyd sylw at y dull a gymerwyd

o ymdrin â deddfwriaeth gwrth-SLAPP mewn awdurdodaethau eraill a thynnodd ymatebwyr sylw at fanteision neu risgiau canfyddedig amrywiol o fabwysiadu'r rhain.

- **Opsiynau diwygio cyfraith difenwi** – roedd yr Alwad am Dystiolaeth wedi crynhoi'r amddiffynfeydd presennol i hawliadau difenwi yng Nghymru a Lloegr ac wedi ceisio barn ynghylch a oedd y rhain yn effeithiol wrth ddelio â SLAPPs neu a oedd angen eu diwygio. Gofynnwyd am farn hefyd ar fabwysiadu trothwy 'malais gwirioneddol' newydd ar gyfer SLAPPs. Fel gyda'r pynciau eraill, mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau. Ar lawer pwnc, roedd yr ymatebion wedi'u polareiddio, rhwng y rhai a deimlai fod yr amddiffynfeydd statudol presennol yn gweithio'n dda ac yn helpu i wrthbwysu ymgyfreitha ar ffurf SLAPP; i eraill, roeddent yn aneffeithiol neu nid oeddent yn helpu gyda'r camau cyn gweithredu lle'r eir i'r rhan fwyaf o gostau a'r amser a gymerir. Un thema allweddol oedd y cydbwysedd anodd rhwng hawliau i enw da a phreifatrwydd a hawliau rhyddid mynegiant a budd y cyhoedd.
- **Diwygiadau gweithdrefnol** – gwahoddwyd barn ynghylch a ddylid diwygio camau cyn gweithredu a chamau eraill y broses ymgyfreitha i fynd i'r afael â heriau SLAPPs. Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu o ran a oedd y prosesau cyn gweithredu presennol yn effeithio ar ymddygiad SLAPP. Un awgrym oedd y dylai llythyrau hawlio a llythyrau ymateb mewn achosion SLAPP ei gwneud yn ofynnol i bartion wneud datganiad o wirionedd. Roedd diwygiadau a awgrymwyd ar ddiddymu achosion a Gorchmynion Atal Sifil yn tueddu i gyfeirio at y rheolau presennol ac awdurdodaethau'r gyfraith gyffredin fel rhai sy'n berthnasol i SLAPPs yn ogystal ag achosion ehangach.
- **Diwygiadau rheoleiddiol** – cafwyd llai o ymatebion i'r agwedd hon ar yr ymgynghoriad. Roedd safbwyntiau'n tueddu i amrywio'n glir o ran i ba raddau yr oedd rheolyddion yn ymateb i wella ymddygiad SLAPP, gan adlewyrchu gwahanol safbwyntiau buddiannau hawlwr a diffynyddion. Roedd rhai ymatebion yn ehangu'r thema'n bellach i reoleiddio cwmnïau rheoli cyfryngau ac enw da.
- **Diwygiadau i gostau** – roedd ymatebwyr yn gyffredinol yn derbyn bod costau cyfreithiol yn un o'r meysydd allweddol ar gyfer diwygio SLAPPs gan fod cynifer o'r pryderon am yr ymgyfreitha hwn yn ymwneud â'r perygl i bartion wynebu costau uchel iawn a chostau personol. Roedd safbwyntiau'n amrywio ynghylch a ddylid capio costau andwyol mewn SLAPPs neu eu gadael i ddisgresiwn y llys. Cafwyd llawer iawn o gefnogaeth o safbwynt budd Diffynyddion mewn cynllun diogelu costau ar gyfer SLAPPs tebyg i'r hyn a oedd yn gymwys mewn hawliadau amgylcheddol.

Casgliad y Llywodraeth a'r Camau Nesaf

Mae'r Llywodraeth yn glir bod SLAPPs yn fath adnabyddadwy a niweidiol o ymgyfreitha sy'n ceisio tawelu, dychryn ac aflonyddu ar wrthwynebwyr. Mae'r Llywodraeth yn pryderu'n fawr am yr effaith ar ryddid barn mewn cymdeithas ac ar ymchwilio ac adrodd er budd y cyhoedd o ganlyniad i orthrwm achosion llys o'r fath.

O ganlyniad, mae'r Llywodraeth yn bwriadu manteisio ar gyfle cynnar i fynd ar drywydd diwygio deddfwriaethol a chyflwyno proses statudol newydd ar gyfer diddymu'n gynnar er mwyn ceisio mynd i'r afael â SLAPPs cyn gynted â phosibl. Fel rhan o'r mesur hwn, rydym yn bwriadu darparu diffiniad statudol o ddiddordeb cyhoeddus i'r cyd-destun hwn fod yn rhan o'r prawf ar gyfer diddymu'n gynnar, a'r cydrannau eraill fydd prawf teilyngdod a chyfres o feini prawf i adnabod SLAPP.

Gall y Llywodraeth hefyd fynd ar drywydd diwygiadau eraill nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol arnynt, ond a fyddai'n defnyddio'r diffiniad a'r meini prawf statudol – er enghraifft cynllun diogelu costau ffurfiol.

Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai'n fwy synhwyrol mabwysiadu dull mwy gofalus o ddiwygio cyfraith hawliau yng nghyswllt difenwi mewn perthynas â SLAPPs. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r farn mai'r meysydd pwysicaf ar gyfer diwygio yw sefydlu prosesau ddiddymu cynnar a threfn diogelu costau; yn rhannol mae hyn yn adlewyrchiad o'r ffaith bod yr angen a'r achos dros ddiwygio yn llai clir yn y maes hwn.

Mae hefyd yn adlewyrchu'r effaith bosibl ar achosion difenwi ehangach lle gallai ymdrechion i leihau SLAPPs gael effaith andwyol ar y cydbwysedd anodd rhwng hawliau sy'n cystadlu â'i gilydd mewn anghydfod ynghylch enllib.

Mewn perthynas â'r diwygio arfaethedig i gyflwyno trothwy malais gwirioneddol ar gyfer hawliadau difenwi SLAPP, nid yw'r Llywodraeth yn argyhoeddedig bod achos cryf ar hyn o bryd dros fynd ati i ddiwygio. Mae hwn yn faes arall a fydd yn dal i gael ei adolygu.

Bydd y Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda'r uwch farnwriaeth a'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil ar ddiwygiadau gweithdrefnol. Yn yr un modd, byddwn yn awyddus i weithio gyda chyrrff rheoleiddio proffesiynol ar unrhyw ddiwygiadau y gellir eu gwneud i gynorthwyo rheoleiddwyr i ymateb i heriau ymddygiad SLAPP.

Archwilir yr holl faterion hyn yn llawnach yn y brif ddogfen ymateb.